CROESO CYMRU

Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol y De-ddwyrain

18 Hydref 2018

Coleg y Cymoedd, Safle Nantgarw

Yn bresennol:

Enw		Cynrychioli
Stephen Leeke	SL	Gwestywyr Caerdydd (Cadeirydd)
Cerys Davey	CD	ICC Wales
Paul Hudson	PH	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Kerry Jennings	KJ	Gwesty Parkway
Sarah Higgs	SH	Gwesty Parkway
Alyson Tippings	AT	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Nia Hollins	NH	Cyngor Bro Morgannwg
Jo Nugent	JN	Gwesty'r Angel, Y Fenni
Francesca Bowen	FB	Seven Hills Hideaway, Sir Fynwy
Amanda Jones	AJ	Meet Caerdydd
Kate McCartney	KM	Meet Caerdydd
Lyndsey Handley	LH	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr
Vicky Jones	VJ	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Adrian Cole	AD	Gwely a Brecwast Van Mansion, Caerffili
Nicola Edwards	NE	Cyngor Sir Fynwy
Rebecca King	RK	Cae Ras Cas-gwent
Judith Evans	JE	Prifathro Coleg y Cymoedd
Philippa George	PG	Heritage Coast Campsite
Lynne Richards	LR	Cyngor Dinas Casnewydd
Ian Christopher	IC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Paul Rees	PR	Cymdeithas Twristiaeth Rhondda Cynon Taf
Tracey Morris	TM	Profiad y Bathdy Brenhinol
Heledd Williams	HW	Pennaeth Digwyddiadau Busnes, Croeso Cymru (CC)
Gerwyn Evans	GE	Pennaeth Datblygu Twristiaeth, CC
Peter Francombe	PF	Rheolwr Cymorth y Diwydiant Twristiaeth, CC
Hugh Evans	HE	Rheolwr Cyswllt Rhanddeiliaid, Trafnidiaeth Cymru
Louisa Giles	LG	Rheolwr Ymgysylltu Rhanbarthol, CC

Ymddiheuriadau

Ieuan Sherwood	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bob Guy	Cyngor Bro Morgannwg
Katrina Rohman	Brynmeadows - Golff, Gwesty a Sba
Phillip Sykes	Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin
Sarah Clifford	Maes Awyr Caerdydd
Ken Smith	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Hannah Williams	Bragdy Tiny Rebel

Croeso a Chyflwyniadau **Cofnodion a Gweithredu:** Cytunwyd ar y cofnodion a thrafodwyd y camau gweithredu. **Camau gweithredu i'w dwyn ymlaen**: DMG i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am brosiectau rhanbarthol Cynllun Buddsoddi Cyrchfan yn y cyfarfod nesaf. Rhoddodd GE y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau bod y cynllun wedi'i gyflwyno i Arweinwyr y Fargen Ddinesig ym mis Gorffennaf. Kellie Beirne yw cyswllt newydd y Fargen Ddinesig a bydd yn cael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Fforwm. Bydd Claire Chappell, Adran Farchnata Croeso Cymru, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o weithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymgyrch farchnata ranbarthol fel rhan o brosiect y Porth Digidol yn y cyfarfod nesaf.	**DMG** **CC** **CC**
Gwybodaeth Ddiweddaraf am Croeso Cymru, Gerwyn Evans Rhoddodd GE y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am brosiectau Rhanbarth y De-ddwyrain. Bydd Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) a'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) yn rhaglen ddwy flynedd rhwng 2019 a 2021, a bydd Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu lansio yn fuan. Bydd angen i brosiectau ddangos eu bod yn cyd-fynd yn strategol â dulliau thematig Ffordd Cymru a Blwyddyn Darganfod, ac mae gwybodaeth am hyn a phrosiectau a gyllidwyd gennym yn flaenorol ar gael yn: https://businesswales.gov.wales/tourism/finance#guides-tabs--0 Mae gan Croeso Cymru gyfres gadarnhaol o gynigion buddsoddi o'r sector preifat. Fodd bynnag, mae rhanbarth y de-ddwyrain yn parhau i fod ar ei hôl hi o gymharu ag ardaloedd eraill Cymru o ran nifer y ceisiadau a dderbynnir ar gyfer yr holl gynlluniau. Yn ôl sioeau teithiol y diwydiant a mathau eraill o adborth rhanbarthol, mae'r arwyddion cynnar yn dangos twf yn nifer yr ymwelwyr dros yr haf. Disgwylir i niferoedd ymwelwyr o dramor (Ffigurau IPS) gael eu rhyddhau cyn bo hir. Fe wnaeth GE annog y partneriaid i weithio'n gydweithredol â'r sector preifat wrth ddatblygu prosiectau yn y dyfodol ac mae angen ystyried dulliau newydd. Cynhelir Cynhadledd Buddsoddi ar 29 Tachwedd er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd datblygu'r sector preifat a'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyda buddsoddwyr sy'n weithredol yn y maes twristiaeth a lletygarwch. Bydd angen i bob busnes twristiaeth sy'n gofyn am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ddatblygu eu Contractau Economaidd eu hunain gyda Croeso Cymru yn unol ag uchelgeisiau'r Cynllun Gweithredu newydd ar yr Economi. Mae Croeso Cymru yn ymwneud yn weithredol â gwaith Parc Rhanbarth y	**CC**

Cymoedd sydd wedi cyhoeddi cronfa gwerth £7 miliwn yn ddiweddar ar gyfer safleoedd Darganfod newydd ar hyd a lled y rhanbarth. **GWEITHREDU: Parc Rhanbarth y Cymoedd i gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Fforwm**	
<u>Sesiwn Holi ac Ateb y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth</u> Gofynnodd yr aelodau gyfres o gwestiynau i'r Gweinidog ar faterion yn ymwneud â Threth Twristiaeth, sgiliau'r diwydiant ac amgueddfeydd lleol. Anogwyd yr aelodau i gysylltu â Swyddfa'r Gweinidog gydag awgrymiadau am fodelau hyfforddi da ac unrhyw rwystrau y mae Amgueddfeydd lleol yn eu hwynebu wrth geisio cynnal arddangosfeydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru ledled Cymru. Rhoddodd Judith Evans, Coleg y Cymoedd, y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cyrsiau, y buddsoddiadau diweddar a'r cymorth sydd ar gael i'r diwydiant. Anogwyd yr aelodau i gysylltu â Paul Rees, Swyddog Ymgysylltu Cyflogaeth, er mwyn trafod unrhyw anghenion sgiliau / hyfforddi, Paul.Rees@cymoedd.ac.uk Fe wnaeth GE atgoffa'r aelodau bod ganddynt y cyfle i gyfrannu at y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wrth benderfynu ar y meysydd blaenoriaeth. Yn anffodus, oherwydd diffyg cynrychiolaeth, nid yw sgiliau twristiaeth a sgiliau wedi'u cynnwys yn y meysydd strategol craidd. Rhoddodd PF y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan David Chapman, UK Hospitality, yn ymwneud â materion sgiliau'r sector a rhoddodd gyfle i'r aelodau gyfrannu.	
<u>Cyflwyniad ar Drenau a Thwristiaeth, Hugh Evans, Trafnidiaeth Cymru</u> Mae'r cyflwyniad eisoes wedi'i ddosbarthu i'r aelodau. Os oes gan yr aelodau unrhyw ymholiadau penodol mewn perthynas â'r cyflwyniad gallant gysylltu'n uniongyrchol: Hugh.Evans@amey.co.uk	
<u>Cyflwyniad Digwyddiadau Busnes Cymru, Heledd Williams, Croeso Cymru</u> Mae'r cyflwyniad eisoes wedi'i ddosbarthu i'r aelodau. Cafodd yr aelodau eu hannog i rannu eu newyddion am ddigwyddiadau busnes drwy MeetInWales@llyw.cymru a newyddion am gynhyrchion drwy ProductNews@llyw.cymru Cafodd yr aelodau eu cymell i ystyried mynychu digwyddiadau masnach tramor Croeso Cymru yn y dyfodol er mwyn hybu eu busnes ac er budd y rhanbarth yn gyffredinol.	

<u>Unrhyw Fater Arall / Sylwadau Cloi</u> Rhoddodd PF y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gynnig a dderbyniwyd yn ymwneud â'r Gwobrau Twristiaeth, yn benodol ar gyfer rhanbarth y de-ddwyrain, gan roi cyfle i'r aelodau gymryd rhan a bod â rhan ar y dyddiad a gynigir sef 29 Tachwedd 2019. Peter.Francombe@llyw.cymru Cafodd y wybodaeth ranbarthol ddiweddaraf ei dosbarthu'n flaenorol i'r aelodau cyn y cyfarfod er eu gwybodaeth. Caiff yr aelodau eu hannog i hysbysu Croeso Cymru os ydynt yn bwriadu mynychu cyfarfodydd neu'n bwriadu anfon swyddogion amgen yn eu lle. Hysbysodd GE yr aelodau mai dyma gyfarfod olaf y Cadeirydd a diolchwyd iddo am ei gyfraniad i'r rôl. Mae enwebiadau yn agored i gadeirydd y De-ddwyrain a gwahoddir yr aelodau i anfon eu henwebiadau cyn y cyfarfod nesaf. Mae yna daliad cydnabyddiaeth sy'n gyfradd ddyddiol gymedrol ar gyfer y 3-4 cyfarfod fforwm blynyddol a'r 3-4 cyfarfod a gynhelir gyda Bwrdd Rheoli Croeso Cymru (y mae'r Gweinidog yn ei fynychu). Cynhelir ein Huwch-gynhadledd Twristiaeth ar 28 Mawrth 2019 yn Llandrindod, gwahoddiadau i ddilyn.	**PAWB** **PAWB** **PAWB**
Dyddiad y cyfarfod nesaf: 21 Chwefror – Lleoliad i'w gadarnhau	